Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Cwestiynau cyffredin - Arolwg Dweud Eich Dweud 2024

Cyhoeddwyd gyntaf: 15 Tachwedd 2023

Diweddariad olaf: 12 Ionawr 2024

> Lawrlwythwyd y ddogfen hon o gofalcymdeithasol.cymru ac efallai nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.
> Ewch i https://gofalcymdeithasol.cymru/ymchwil-a-data/arolwg-dweud-eich-dweud-2024/cwestiynau-cyffredin---arolwg-dweud-eich-dweud-2024 am y fersiwn diweddaraf.

Rydyn ni’n lansio ein harolwg Dweud Eich Dweud diweddaraf ym mis Ionawr 2024.

Mae'r arolwg hwn o'r gweithlu gofal cymdeithasol cofrestredig yn gofyn cwestiynau am bethau fel iechyd a llesiant, cyflog ac amodau, hyfforddiant, cymwysterau ac anghenion datblygu.

Hwn fydd yr ail dro i ni gynnal yr ymchwil hwn, ar ôl yr arolwg peilot wnaethon ni cynnal yn gynharach eleni.

## Beth yw pwrpas yr arolwg hwn?

Dangos

Rydyn ni’n cynnal yr arolwg hwn eto yn 2024 fel y gallwn ni ddechrau monitro tueddiadau o ran beth mae pobl yn ei feddwl am weithio ym maes gofal cymdeithasol.

Bydd y canfyddiadau'n helpu i lunio'r cymorth rydyn ni a'n partneriaid yn ei gynnig, yn ogystal â thynnu sylw at faterion pwysig i lunwyr polisi yn Llywodraeth Cymru.

## Beth fydd yr arolwg yn ei ofyn?

Dangos

Yn union fel arolwg 2023, byddwn yn gofyn cwestiynau am bethau fel eich iechyd a'ch llesiant, cyflog ac amodau, hyfforddiant, cymwysterau ac anghenion datblygu.

Rydyn ni eisiau darganfod mwy am beth mae pobl yn ei hoffi am weithio yn y sector yng Nghymru, a lle mae angen mwy o gefnogaeth.

## Pwy sy'n cynnal yr arolwg?

Dangos

Rydyn ni’n gweithio gyda'r Athro Jermaine Ravalier ym Mhrifysgol Bath Spa i gynnal arolwg eleni.

Mae'r Athro Ravalier yn ymchwilydd blaenllaw sy'n edrych ar amodau gwaith a llesiant gweithwyr gofal cymdeithasol.

Bydd ein partneriaeth yn ein galluogi i gymharu ein canfyddiadau â data'r gweithlu a gesglir ledled Cymru, y DU a ledled y byd, i nodi tueddiadau neu wahaniaethau ym mhrofiad gweithwyr.

## Ble bydd yr arolwg yn cael ei gynnal?

Dangos

Bydd yr arolwg yn cael ei gynnal ar y platfform Online Surveys.

## Sut alla i gymryd rhan?

Dangos

Pan fydd yr arolwg yn mynd yn fyw, byddwn yn rhannu dolen i borth arolwg gyda'r holl weithwyr gofal cymdeithasol cofrestredig yng Nghymru. Bydd y ddolen ar gael hefyd ar ein gwefan.

Ar y porth, gallwch gofrestru i gymryd rhan ar-lein neu ofyn am gopi papur os byddai'n well gennych.

Bydd pawb sy'n cwblhau'r arolwg yn cael eu cynnwys mewn raffl i ennill un o 25 taleb siopa gwerth £20.

## Pam fod fy marn yn bwysig?

Dangos

Rydyn ni am i bobl o bob oedran, cefndir a rôl gofal cymdeithasol gymryd rhan yn yr arolwg hwn.

Bydd eich barn yn bwysig i roi darlun sy’n wir gynrychioli sut brofiad yw gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru heddiw.

Bydd dweud wrthyn ni beth rydych chi'n ei feddwl yn helpu i lunio'r gefnogaeth rydyn ni a'n partneriaid yn ei gynnig.

## Pwy sy'n gweld fy nata i?

Dangos

Bydd y wybodaeth a gasglwn yn cael ei defnyddio ar gyfer ymchwil yn unig ac i baratoi ystadegau am y gweithlu. Mae eich manylion cyswllt yn cael eu cadw ar wahân i'ch atebion ac ni fyddant yn cael eu trosglwyddo i unrhyw un y tu allan i'r prosiect ymchwil. Mae'r arolwg yn gwbl anhysbys - fydd neb yn gwybod pwy sydd wedi cymryd rhan.

Bydd eich atebion yn cael eu cyfuno â rhai pobl eraill sy'n cymryd rhan yn yr arolwg. Yna bydd Prifysgol Bath Spa yn anfon y canlyniadau a'r dadansoddiad atom ni, a byddwn yn cyhoeddi mewn adroddiad ar ein gwefan. Ni fydd hwn yn cynnwys eich enw na'ch manylion cyswllt, ac ni fydd modd adnabod unrhyw unigolyn o'r canlyniadau.

Ni fyddwch yn derbyn unrhyw 'bost sothach' o ganlyniad i gymryd rhan.

## Sut fydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio?

Dangos

Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwn i'n helpu i benderfynu sut y gallwn ni a'n partneriaid gynnig y gefnogaeth orau i chi yn eich gwaith. Byddwn

yn rhannu ein canfyddiadau â Llywodraeth Cymru a sefydliadau cenedlaethol eraill i sicrhau bod llunwyr polisi yn clywed eich llais.

Byddwn hefyd yn defnyddio'r data i lunio canfyddiadau ar draws gwahanol rolau swyddi a gwledydd. Bydd hyn wedyn yn cael ei gyhoeddi mewn adroddiad ar ein gwefan.

## Oes rhaid i mi gymryd rhan?

Dangos

Nac oes – mae'n gwbl wirfoddol.

Ond byddem yn eich annog i ateb cynifer o'r cwestiynau ag yr ydych yn teimlo'n gyfforddus â nhw.

Po fwyaf cyflawn yw'r wybodaeth rydyn ni'n ei gasglu, y mwyaf defnyddiol yw hi pan fyddwn yn dadansoddi'r canlyniadau ac yn ymateb i'r canfyddiadau.

## Beth oedd canlyniadau arolwg 2023?

Dangos

Yn ddiweddar, wnaethon ni cyhoeddi canlyniadau arolwg peilot 2023, a ddangosodd fod gweithwyr gofal cymdeithasol yn teimlo eu bod nhw'n cael eu gwerthfawrogi gan y bobl a'r teuluoedd y maen nhw'n eu cefnogi. Ond maen nhw hefyd yn teimlo nad ydyn nhw'n cael eu gwerthfawrogi'n ddigonol gan y cyhoedd ac nad ydyn nhw'n cael digon o dâl am y gwaith maen nhw'n yn ei wneud.

Os hoffech gael gwybod mwy am arolwg y gweithlu 2023, gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma.

Angen mwy o wybodaeth?

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach am arolwg Dweud Eich Dweud 2024, cysylltwch â’r Athro Jermaine Ravalier ar j.ravalier@bathspa.ac.uk.